| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **22 MEHEFIN 2015** |
| **TEITL:** | **POLISI AR DDERBYN TYSTYSGRIFAU DBS LEFEL UWCH A GYHOEDDWYD YN FLAENOROL I YMGEISWYR TRWYDDED GYRRWR CERBYD HACNI/CERBYD HURIO PREIFAT** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Mae ymgeiswyr am 'Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfun' wedi'u heithrio o ddarpariaethau Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 ac o Orchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygiadau) 2002. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddatgelu POB euogfarn, rhybudd a chosb benodedig.

1.2 Yn unol ag a46 Deddf Cymalau Heddlu'r Dref ac a51 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ni fydd y Cyngor yn cyhoeddi 'Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat' gyfun oni bai ei fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn 'berson addas a phriodol' i ddal trwydded.

1.3 Fel rhan o'r prawf 'person addas a phriodol' mae'r Cyngor yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu Tystysgrif Lefel Uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) (a alwyd yn flaenorol yn Ddatgeliad Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)).

1.4 Mabwysiadwyd polisi presennol Cyngor Gwynedd ar 'Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfun' gan y Pwyllgor ar 22 Hydref 2010. Cyfeiriwyd at y ddogfen hon hefyd fel pecyn gwybodaeth a oedd yn cynnwys canllawiau. Mae'r ddogfen yn cynnwys cyfeiriad at adran "5 – Nodiadau Canllaw – Ymgeisio am Ddatgeliad"; fodd bynnag, ni ellir adnabod yr adran yn glir o fewn y ddogfen.

1.5 Fodd bynnag, mae'r ddogfen yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn ynghylch gofynion datgelu yn yr adran a elwir "Y Cais".

DS. Rhaid gwneud apwyntiad gyda swyddog awdurdodedig y Tîm Trwyddedu fel y gellir cwblhau ffurflen ddatgelu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (Uwch). Pan fyddwch yn mynychu'r cyfarfod hwn, rhaid i chi ddod â'ch trwydded DVLA, Pasbort, Tystysgrif Geni/Priodas ac unrhyw ddull arall o'ch adnabod - rhywbeth sy'n dangos eich cyfeiriad presennol e.e. bil cyfleuster.

Ar ôl derbyn ateb boddhaol i'r ffurflen CRB ac ar ôl derbyn yr holl ddogfennaeth angenrheidiol, caiff yr ymgeisydd ei Drwydded Gyrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfun a'r Bathodyn.

Bydd yn rhaid ystyried cais gan y Pwyllgor Trwyddedu os:
1. oes euogfarn(au) perthnasol

## 2.0 TYSTYSGRIF LEFEL UWCH DATGELU A GWAHARDD GYDA GWIRIADAU RHESTR GWAHARDD

2.1 Yn a113BA Deddf yr Heddlu 1997, nodir *"in such cases as prescribed, an enhanced criminal record certificate must also include suitability information relating to children*" ac yn

a113BB, nodir *"in such cases as prescribed, an enhanced criminal record certificate must also include suitability information relating to adults."*

2.2 Mae ystyried addasrwydd yr ymgeisydd i gael neu ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni neu drwydded gyrrwr hurio preifat wedi'i nodi fel 'dibenion penodol' yn a5 ac a6 Rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) (Rhif 2) 2009.

2.3 Ceir y wybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant ac oedolion drwy gyflwyno cais am 'Ddatgeliad Lefel Uwch gyda Gwiriadau Rhestr Gwahardd'. Mae dwy restr gwahardd yn bodoli, un i blant ac un i oedolion.

2.4 Fel y nodir yn Neddf yr Heddlu 1997, RHAID i'r dystysgrif cofnod troseddol uwch wrth ystyried addasrwydd yr ymgeisydd i gael neu ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni neu drwydded gyrrwr hurio preifat, hefyd gynnwys gwybodaeth addasrwydd h.y. gwiriad rhestr gwahardd, yn ymwneud â phlant ac oedolion.

## 3.0 DERBYN TYSTYSGRIFAU LEFEL UWCH DBS A GYHOEDDWYD YN FLAENOROL

3.1 Nid yw'r ddogfen polisi bresennol yn cyfeirio at dderbyn tystysgrifau lefel Uwch DBS a gyhoeddwyd yn flaenorol ac nid yw'n rhoi manylion ychwaith am ba hyd yr ystyrir bod y dystysgrif lefel Uwch DBS yn ddilys.

3.2 Yr ymarfer safonol yng Ngwynedd ac ymhlith awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yw derbyn Tystysgrifau Lefel Uwch DBS a gyhoeddwyd yn flaenorol ar yr amod eu bod yn llai na thri mis oed ac ystyrir bod tystysgrifau yn ddilys am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad eu cyhoeddi.

3.3 Cost cyfredol Tystysgrif Lefel Uwch gyda gwiriadau rhestr gwahardd yw £44.00. Mae'r ffi wedi'i osod yn genedlaethol. Codir ffi weinyddol ychwanegol o £7.19 gan y Cyngor i brosesu'r cais.

3.4 O ystyried y gofynion cyfreithiol, gall yr arferiad o dderbyn tystysgrifau lefel uwch DBS a gyhoeddwyd yn flaenorol barhau AR YR AMOD bod y dystysgrif a gyhoeddwyd yn flaenorol yn Dystysgrif Lefel Uwch a'i bod yn cynnwys y gwiriad rhestr gwahardd plant a'r gwiriad rhestr gwahardd oedolion.

## 4.0 **ARGYMHELLIAD**

4.1 Bod y Pwyllgor yn nodi, wrth ystyried addasrwydd ymgeisydd i gael neu ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni neu drwydded gyrrwr hurio preifat mai DIM OND Tystysgrifau Lefel Uwch gyda gwiriad rhestr gwahardd plant a gwiriad rhestr gwahardd oedolion y gellir eu derbyn.

4.2 Bod y Pwyllgor yn penderfynu y gall yr arferiad o dderbyn Tystysgrifau Lefel Uwch a gyhoeddwyd yn flaenorol barhau AR YR AMOD eu bod wedi'u dyddio llai na thri mis o'r dyddiad cyhoeddi i'r dyddiad cais ac yn cynnwys gwiriad rhestr gwahardd plant a gwiriad rhestr gwahardd oedolion.

4.3 Bod y Pwyllgor yn penderfynu yr ystyrir bod y 'Dystysgrif Lefel Uwch DBS gyda'r gwiriadau rhestr gwahardd' o yrwyr cerbydau hacni/cerbydau hurio preifat yn ddilys am dair blynedd o ddyddiad eu cyhoeddi.